

SIR GAERFYRDDIN

Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership




GORFFENNHAFF-MEDI 2025

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gnodeiwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?



I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir,
darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth



Anfonwch eich lluniau at: Biodiversity@sirgar.gov.uk



Pryf ichnewmon

Mae pryfed ichnewmon yn bryfed rhyfeddol. Er eu bod yn edrych braidd yn frawychus, mae'r rhan fwyaf o rywogaethau yn hollol ddiniwed i bobl. Maent yn ysglyfaethwyr parasitaidd, sy'n dodwy eu hwyau mewn neu ar bryfed eraill fel lindys, larfae chwilod a llifbryfed. Mae larfae ifanc y pryf ichnewmon yn bwydo ar eu gwesteiwr, gan helpu i reoli poblogaethau pryfed yn naturiol. Mae dros 2500 o rywogaethau i'w gweld ym Mhrydain, ac mae ganddynt amrywiaeth enfawr o liwiau a ffurfiau. Gellir gweld llawer yn ymweld â blodau wrth chwilio am neithdar yn ystod yr haf. Maent yn enghraifft dda o gydbwysedd cymhleth ein hecosystemau.



Blodyn Mwnci

Mae gan y Blodyn Mwnci (*Mimulus guttatus*) flodyn melyn llachar ac mae i'w weld yn aml wrth ymyl nentydd, ffosydd gwlyb a thir llaith. Daeth o Ogledd America yn wreiddiol, ac mae wedi ymsefydlu ar draws llawer o Brydain, gan gynnwys Cymru. Dywedir bod y blodau melyn llachar, sy'n aml â smotiau cochlyd arnynt, yn debyg i wyneb mwnci, a dyma roddodd yr enw cyffredin ar y planhigyn. Mae'n blodeuo o ddiwedd y gwanwyn i'r hydref, gan ddarparu neithdar ar gyfer pryfed peillio. Er nad yw'n blanhigyn brodorol, mae'r Blodyn Mwnci wedi dod yn flodyn cyfarwydd mewn llawer o gynefinoedd gwlyptir ac ar lannau afonydd.



Robin goch ifanc

Mae Robin goch ifanc (*Erithacus rubecula*) yn edrych yn wahanol iawn i'r oedolyn cyfarwydd â'i frest goch. Daw'r adar ifanc allan o'r nyth gyda phlu brown brith. Mae hyn yn rhoi cuddliw rhagorol i'r adar ifanc wrth iddyn nhw ddysgu chwilio am fwyd yn annibynnol. Nid yw'r frest oren-goch nodweddiadol yn datblygu tan ar ôl i'r adar fwrw eu plu am y tro cyntaf yn ddiweddarach yn yr haf. Mae'r adar ifanc yn chwilio am bryfed, mwydod ac aeron mewn gerddi, gwrychoedd ac ymylon coetiroedd. Yn ystod y cyfnod hwn maen nhw'n wynebu peryglon gan ysglyfaethwyr a thywydd gwael.



Collen/Celynnen

A yw'r darn hwn o wrych yn Gelynnen-Gollen neu'n Gollen-Gelynnen? Pan fydd coeden gollen yn tyfu'n uniongyrchol allan o goeden gelynnen, fel arfer mae'n golygu bod aderyn neu wiwer wedi cuddio cneuen gollen mewn crac, fforch, neu wrth fôn y gelynnen, lle gwnaeth egino mewn deilbridd. Oherwydd bod y ddwy rywogaeth sy'n frodorol i'r DU yn goddef cysgod yn dda, mae'n hawdd iddyn nhw gydblethu'n dynn dros amser.

Maen nhw'n blanhigion ar wahân sy'n cystadlu am yr un lle – o'r llun yma mae'n ymddangos eu bod yn dod ymlaen yn iawn.



Pen Hadau Barf yr Afr

Mae pen hadau Barf yr Afr (*Tragopogon pratensis*) yn un o'r rhai mwyaf a mwyaf trawiadol ym myd blodau gwyllt. Mae'n edrych yn debyg i'r 'cloc' dant y llew sydd mor gyfarwydd i ni, gan ffurfio glôb crwn perffaith o hadau pluog sy'n gallu bod yn sawl centimetr ar draws. Mae pob hedyn yn sownd i strwythur tebyg i barasiwt, sy'n caniatáu i'r hadau gael eu gwasgaru gan y gwynt. Fel arfer, mae blodau Barf yr Afr yn agor yn y bore ac yn aml yn cau cyn hanner dydd. Mae eu pennau hadau trawiadol yn nodwedd ddiddorol ar ddiwedd yr haf ac yn dangos i ni'r amryfal ffyrdd sydd gan blanhigion o ledaenu i leoliadau newydd.



Corn Iwrch

Darganfuwyd y corn iwrch (*Capreolus capreolus*) hwn ar y ddaear mewn coetir yn Sir Gaerfyrddin. Yn wahanol i anifeiliaid corniog eraill, caiff cynn ceirw eu diosg a'u haildyfu bob blwyddyn. Mae iyrchod gwrywaidd, a elwir yn fychod, yn bwrw eu cynn yn ystod yr hydref ac yn dechrau tyfu rhai newydd bron ar unwaith. Mae'r cynn newydd wedi'u gorchuddio â melfed llawn gwaed, sy'n rhoi maeth i'r cynn wrth iddyn nhw dyfu hyd nes eu bod yn caledu. Caiff yr hen gynn sydd wedi eu diosg eu cnoi mewn byr o dro gan gnofilod ac anifeiliaid eraill sy'n chwilio am fwynau gwerthfawr. Pwy a wŷr ble cafodd y pâr cyfatebol ei ddiosg!?



Llau'r Offeiriad

Mae Llau'r Offeiriad (*Galium aparine*), neu wlyddyn y perthi neu wlyddyn garw, yn blanhigyn y gallwch ei adnabod ar unwaith oherwydd ei goesau a'i ddail sy'n glynu. Mae blew bach, bachog yn helpu'r planhigyn i ddringo dros lystyfiant cyfagos. Mae'n gyffredin mewn gwrychoedd, ymylon coetir a gerddi, ac mae'n tyfu'n gyflym yn ystod y gwanwyn a'r haf. Yn dilyn blodau bach gwyn y planhigyn, daw hadau sy'n glynu wrth anifeiliaid sy'n mynd heibio. Mae Llau'r Offeiriad yn darparu cysgod i infertebratau a bwyd i rai mathau o fywyd gwyllt. Er bod y planhigyn yn aml yn cael ei ystyried yn chwyn, mae'n rhywogaeth frodorol sydd â rôl ecolegol bwysig.



Teim Gwyllt

Mae teim gwyllt (*Thymus polytrichus*) yn blanhigyn persawrus isel sy'n tyfu ar laswelltiroedd, ar fannau creigiog ac mewn cynefinoedd arfordirol. Yn ystod yr haf mae'n cynhyrchu clystyrau o flodau pinc-borffor, sy'n aml wedi'u gorchuddio â gwenyn, ieir bach yr haf a phryfed peillio eraill. Mae'r dail yn rhyddhau persawr nodedig pan gânt eu gwasgu, o ganlyniad i olewau naturiol sy'n helpu i amddiffyn y planhigyn rhag anifeiliaid pori ac amodau amgylcheddol garw. Mae teim gwyllt yn ffynnu mewn priddoedd heb lawer o faetholion, lle nad oes llawer o gystadleuaeth gan blanhigion mwy.



Ffwng Ysgwydd Derw

Cymerwch olwg agosach ar y ffwng Ysgwydd Derw (*Pseudoinonotus dryadeus*) ac efallai y byddwch chi'n gweld cannoedd o fandyllau bach. Mae ffyngau ysgwydd derw yn tyfu ar goed derw byw a marw, gan chwarae rôl bwysig wrth ailgylchu deunydd coediog. Mae ymddafnu yn digwydd pan fydd y ffwng yn ifanc ac yn tyfu ar ddiwedd y gwanwyn a'r haf; mae mandyllau bach ar yr wyneb uchaf yn rhyddhau defnynnau hylif trwchus, lliw ambr neu oren-frown sy'n edrych fel mêl yniferu. Mae'r ffwng hwn yn perthyn i grŵp o'r enw ffyngau pydredd y boncyff (*butt rot fungi*).



Lleihau Pwysau Pori mewn coetir derw ucheldirol

Gall rheolaeth effeithiol ar bori fod yn offeryn allweddol mewn cadwraeth coetir hirdymor. Mae lleihau pwysau pori yn aml yn hanfodol er mwyn adfer coetir derw ucheldirol. Gall pori gormodol gan ddefaid, ceirw a da byw atal coed ifanc rhag ymsefydlu ac atal twf blodau, llwyni a mwsoglau coetir. Trwy leihau dwysedd stocio neu gyflwyno system rheolaeth bori wedi'i chynllunio'n ofalus, gall coetiroedd gael eu hadfywio'n naturiol. Mae eginblanhigion ifanc coed Derw, Cerddin, Celyn a Bedw yn cael cyfle i ddatblygu, gan gynyddu amrywiaeth strwythurol ac ansawdd y cynefinoedd. Mae llystyfiant daear iachach hefyd yn cynnal mwy o amrywiaeth o bryfed, adar a mamaliaid.



Meillionen gedennog

Mae'r feillionen gedennog (*Trifolium arvense*) yn blanhigyn unflwydd nodedig sydd â phennau blodau meddal, sidanaidd, sy'n edrych yn debyg i droed ysgyfarnog. Mae i'w gweld ar laswelltiroedd sych, priddoedd tywodlyd a chynefinoedd arfordirol, ac mae'n ffynnu mewn mannau agored heb fawr o gystadleuaeth gan llystyfiant talach. Mae'r sbigynnau blodau o liw pinc golau i lwyd-wyn wedi'u gorchuddio â blew mân, sy'n rhoi ymddangosiad blewog i'r planhigyn. Mae'r feillionen gedennog yn enghraifft dda o blanhigyn sydd wedi addasu i gynefinoedd heb lawer o faetholion.



Tanau gwyllt

Mae tanau gwyllt yr haf yn Sir Gaerfyrddin wedi achosi difrod difrifol i fioamrywiaeth leol trwy ddinistrio cynefinoedd bregus, lladd anifeiliaid sy'n symud yn araf, a diraddio ansawdd pridd a dŵr.

Mae tanau yn gadael pridd yn agored i erydiad trwm. Gall glaw wedyn olchi lludw, huddygl, a baw rhydd i afonydd a nentydd lleol. Mae planhigion sy'n llosgi yn rhyddhau llawer o garbon deuocsid i'r awyr.

Gall gymryd llawer iawn o flynyddoedd i lystyfiant sensitif ddychwelyd mewn ffordd debyg i'r hyn yr ydoedd cynt. Bydd monitro'r safleoedd hyn yn bwysig iawn tra bod y cynefinoedd hyn yn adfer.

amphibian and reptile
conservation



Butterfly Conservation Wales
Gwarchod Glöynnod Byw Cymru



Botanical
Society of the
British
Isles



buglife



Bumblebee
Conservation
Trust
Ymddiriedolaeth
Cadwraeth
Cacwn



The
carbon
community



Clwb Adar Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Bird Club

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Carmarthenshire
Meadows
Group



Grŵp
Dolydd Sir
Gaerfyrddin

CoedLleol
SmallWoods



Dŵr Cymru
Welsh Water



Floodplain
Meadows
Partnership



MENTER AR GYFER
CADWRAETH NATUR CYMRU



INITIATIVE FOR NATURE
CONSERVATION CYMRU



LLANELLI NATURALISTS
NATURIAETHWYR LLANELLI



Mid Wales
Red Squirrel Partnership
Canolbarth Cymru
Partneriaeth Gwiwerod Coch



National Botanic
Garden of Wales
Gardd Fotaneg
Genedlaethol Cymru



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol
National Trust



Rhwydwaith
Ffermio
er Lles
Natur



Nature
Friendly
Farming
Network



PROJECT SEAGRASS



Plantlife



RSPB



Asiant Celffyrdd De Cymru
South Wales Trust
Road Agency



W W B I C



WEST WALES
BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH
GORLLEWIN CYMRU



WEST WALES
RIVERS TRUST
YMDIRIEDOLAETH AFONYDD
GORLLEWIN CYMRU



WWT



Ymddiriedolaeth Natur
De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of
South & West Wales



COED CADW
WOODLAND
TRUST



VWT Vincent
Wildlife Trust



Partneriaeth Sir Gaerfyrddin